

Llestri claddu Dechrau Oes yr Efydd yng Nghymru

Wedi tua 2250CC dechreuodd credoau am farw ac arferion claddu newid. Dechreuwyd claddu'r meirw gyda gwrthrychau arbennig i fynd gyda nhw, gan gynnwys llestri addurnedig cain

Dechw o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology



Bicer
2250 – 1700 CC

Mae'r potiau yma, oedd yn aml wedi'u haddurno'n gain, yn nodweddiadol o ddechrau Oes yr Efydd.

Mae nhw fel arfer i'w canfod gyda chladdedigaethau cwrcwd, ble mae'r corff ar ei ochr fel petai'n cysgu, ond hefyd weithiau mewn amlosgiadau.

Bydd gwrthrychau aur, efydd, jâd, fflint a charreg yn cael eu claddu yn y bedd weithiau.



Cwpan
2100-1700 CC

Mae'n ymddangos fod y cwpanau bychan enigmatig yma wedi dod yn rhan fawr o'r ddefod wrth i amlosgi ddod yn gyffredin.

Mae'r addurn yn debyg i'r Biceri, a byddai motiff haul ar y gwaelod yn aml.

Bydd o leiaf un twll yn yr ochr fel arfer ar ôl llosgi'r cwpan yn y goelcerth.



Wrn fâs
2150-1700 CC

Mae'r wrn siâp fâs yma yn dangos y cyswllt agos rhwng Cymru ac Iwerddon, ble mae nhw'n fwy cyffredin.

Byddan nhw fel arfer yn cael eu claddu gyda, neu yn dal, esgyrn dynol.

Mae nhw fel arfer ag addurniadau cain, gyda bandiau addurnedig wedi'u gwasgu yn gorchuddio traean uchaf y llestr o leiaf.



Wrn colerog
2050 – 1550 CC

Yn hytrach na dal esgyrn wedi'u hamlosgi, bydd wrnau colegog yn cael eu gosod wyneb i waered dros y gweddillion. Mae nifer yng nghasgliad yr Amgueddfa heb waelodion ar ôl cael eu torri wrth i ffermwyr aredig!

Daw'r enw o'r 'goler' drom sy'n creu band gwastad o amgylch gwddf y llestr, ac sy'n aml ag addurn geometrig cain.



Wrn grofennog
2100 – 1750 CC

Mae siâp wrn crofennog yn debyg i wrn fâs, ond bod sribedi clai tenau yn cael eu gosod ar yr wyneb i greu addurn tri dimensiwn.

Bydd y dyluniad fel arfer yn gorchuddio'r llestr.

Dydyn nhw ddim yn gyffredin yng Nghymru, ac mae nhw fel arfer yn dal esgyrn wedi amlosgi.